

# Carwyn y babi




Tric a Chlic 3



Mae Carwyn y babi yn flwydd oed. Pen-blwydd hapus Carwyn.





Mae eisiau bwyd ar Carwyn y babi.



"Wyt ti eisiau wy?" gofynnodd Dwynwen, ei chwaer.





"Wy, wy, wy," gwaeddodd Carwyn y babi.



"Wyt ti eisiau llwy?" gofynnodd Dwynwen, ei chwaer.






"Llwy, llwy, llwy," gwaeddodd Carwyn y babi.




Mae Carwyn yn gwneud ei orau glas i fwyta'r wy gyda'r llwy ond mae'n gwneud llanast llwyr!





Mae wy ar ei drwyn.



Mae wy ar ei ddwylo.





Mae wy yn hedfan drwy'r awyr.

Mae Carwyn yn cael hwyl ar ei ben-blwydd.



